**Dyddiad:** **Dydd Mercher 27 Hehefin 2002**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Strwythurau'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus**

## Crynodeb

1. Ar 27 Tachwedd 2001 cyhoeddodd y Gweinidog y byddai gwasanaeth iechyd cyhoeddus yn cael ei greu ar gyfer Cymru ar lefel genedlaethol o fis Ebrill 2003 ac y byddai hyn yn cael ei gynnal gan un o Ymddiriedolaethau GIG. Bydd y gwasanaeth hwn yn ymgorffori'r swyddogaethau iechyd cyhoeddus hynny sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan y 5 awdurdod iechyd yng Nghymru. Ar hyn o bryd defnyddir y term "Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol" fel teitl gweithio i ddisgrifio swyddogaethau iechyd cyhoeddus yr awdurdodau iechyd yn unig. Cydnabyddir bod gan lawer o gyrff eraill (megis awdurdodau lleol, asiantaethau'r llywodraeth a'r sector gwirfoddol) rolau pwysig o fewn cyfanrwydd y swyddogaethau "iechyd cyhoeddus" - ni fydd y cyrff hyn yn rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ond byddant yn awr yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth.

2. Bydd Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru wedi'i leoli o fewn Ymddiriedolaeth GIG. Bydd yn darparu arbenigedd iechyd cyhoeddus yn bennaf i Fyrddau Iechyd Lleol a bydd wedi'i strwythuro o gwmpas tair Swyddfa Ranbarthol. Bydd Arbenigwr mewn Iechyd Cyhoeddus a fydd yn aelod o Fwrdd Gweithredol y Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am iechyd cyhoeddus y boblogaeth leol.

3. Cyhoeddodd y Gweinidog ei phenderfyniad i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 29 Mai y bydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, o 1 Ebrill 2003, yn cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Wrth ddatblygu ei rôl newydd pwysleisiodd y Gweinidog i'r Ymddiriedolaeth y dylai lleoliad daearyddol staff a swyddfeydd adlewyrchu rôl y Gwasanaeth newydd ledled Cymru.

4. Mae nifer o benderfyniadau allweddol wedi bod yn aros am ganlyniadau'r broses ddethol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth GIG gan fod angen iddynt fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Bydd cyhoeddiad y Gweinidog bellach yn caniatáu i'r trafodaethau angenrheidiol hyn ddigwydd.

## Penderfyniadau a wnaed eisoes

5. Lleolir y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

6. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn atebol i Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth.

7. Bydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn gweithredu drwy 3 Swyddfa Ranbarthol, a bydd gan bob un Gyfarwyddwr Rhanbarthol.

8. Yn y Bwrdd Iechyd Lleol penodir Arbenigwr mewn Iechyd Cyhoeddus yn Gyfarwyddwr Gweithredol y Bwrdd a bydd yn gyfrifol am iechyd cyhoeddus y boblogaeth leol.

9. Sefydlwyd gweithgor i ystyried yr union berthynas rhwng y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

10. Bydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn atebol i'r Prif Swyddog Meddygol am faterion proffesiynol a pherfformiad.

11. Cyfarwyddwr GIG Cymru fydd y Swyddog Cyfrifo.

12. Bydd yr holl staff yn y GIG sydd ar hyn o bryd yn cyflawni dyletswyddau iechyd cyhoeddus yn cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

13. Ni fydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn cyflawni unrhyw swyddogaethau statudol. Bydd y rhain yn cael eu dirprwyo i raddau helaeth i'r Byrddau Iechyd Lleol a bydd y gwasanaeth cenedlaethol yn rhoi iddynt yr arbenigedd iechyd cyhoeddus a'r gallu i gyflawni'r rôl hon.

14. Bydd cyfrifoldebau cyfredol yr awdurdodau iechyd mewn perthynas â Diogelu Plant yn mynd yn gyfrifoldeb y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Sefydlwyd gweithgor i nodweddu a nodi'r adnoddau a gyflwynir gan awdurdodau iechyd ar hyn o bryd mewn perthynas â Diogelu Plant ac i wneud argymhellion mewn perthynas â'r gwasanaeth.

15. Nodwyd y swyddogaethau iechyd cyhoeddus a'r adnoddau a gyflwynir gan y 5 awdurdod iechyd ar hyn o bryd.

**Gwaith mewn Llaw**

16. Mae disgrifiadau swydd drafft ar gyfer y cyfarwyddwyr yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd hysbysebion ar gyfer haen uchaf y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gwladol yn ymddangos ym mis Mehefin.

17. Rhoddir ystyriaeth i leoliad staff o fewn y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Mae'n bwysig cael y cydbwysedd cywir rhwng cynnal màs critigol o staff o fewn pob rhanbarth a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno'n lleol. Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch lletya gan

ystyried yr hyn sydd ar gael o fewn Ystadau Iechyd Cymru a gofynion rhannau eraill o'r GIG.

18. Mae'n bwysig cael cydbwysedd rhwng yr angen am barhad busnes â disgwyliadau a gofynion Byrddau Iechyd Lleol unwaith y bydd y rhain wedi'u sefydlu ar ffurf cysgodol. Bydd y gweithgor (a ddisgrifir uchod) yn ystyried y materion hyn.

19. Er mai'r Ymddiriedolaeth fydd yn gwneud y penodiadau i'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol bydd angen gwaith i wneud rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y broses yn eglur.

20. Mae'r berthynas rhwng y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a'r Asiantaeth Diogelu Iechyd yn Lloegr eto i'w bennu'n derfynol yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus. Ar 29 Mai cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd y ddogfen ymgynghori yn cynnig y bydd gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd yn Lloegr rôl yng Nghymru a pherthynas statudol â'r Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, er mwyn parhau i ddatblygu trefniadau sy'n cyfateb i anghenion penodol Cymru, argymhellir y bydd trefniadau ar wahân ar gyfer gwasanaethau maes yng Nghymru.

21. Yn unol â datganiadau blaenorol y Gweinidog, bydd Ymgynghorwyr mewn Rheoli Clefydau Heintus yn dod yn rhan o Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol - Cymru yn hytrach nag uno â'r Asiantaeth newydd (fel yr argymhellir yn Lloegr).

22. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd ei phenderfyniad y bydd y ddogfen ymgynghori yn cynnig y bydd Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus (Cymru), sydd ar hyn o bryd yn rhan o'r corff yng Nghymru a Lloegr a fydd yn uno â'r Asiantaeth, yn dod yn rhan o Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol - Cymru. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfle i dynnu at ei gilydd y gwasanaethau arbenigol a'r gwasanaethau maes sy'n hanfodol ar gyfer rheoli a chadw golwg ar glefydau heintus yng Nghymru.

23. Cyhoeddodd y Gweinidog fod paratoadau ar y gweill ar gyfer sefydlu Canolfan Iechyd Cymru, y corff annibynnol a fydd yn cynnig cyngor ar wella iechyd yng Nghymru. Dywedodd fod angen dybryd i sefydlu mudiad annibynnol i gynnig cyngor, ymchwil a hyfforddiant i ddiogelu a gwella iechyd yng Nghymru. Cyhoeddwyd cynigion statudol pwysig ar gyer y Ganolfan ym Mesur GIG (Cymru). Hyd nes y daw'r.

24. Mesur yn gyfraith mae'r Gweinidog wedi rhoi trefniadau cysgodol yn eu lle gan ddefnyddio pwerau presennol y Cynulliad Cenedlaethol. Lleolir y Ganolfan gysgodol o fewn Ymddiriedolaeth GIG Felindre hyd nes y caiff ei sefydlu'n statudol. Bydd y cytundeb ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre (a wnaed o dan Adran 41 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998) yn golygu y bydd yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am sefydlu'r Ganolfan yn gysgodol. Bydd y Ganolfan yn derbyn cyngor gan Banel Ymgynghorol o arbenigwyr ym maes iechyd y cyhoedd o feysydd iechyd, awdurdod lleol ac academaidd.

Malcolm Golding

Public Health Strategy Division